**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Canlyniad Etholiadau Lleol 2012
Mai 2012

Mae'r papur hwn yn cyflwyno canlyniadau'r etholiadau lleol a gynhaliwyd ar 3 Mai 2012. Darperir ffigurau sy'n dangos rheolaeth gyffredinol gwahanol gynghorau, nifer y seddau a enillwyd gan bob plaid wleidyddol a maint y mwyafrif mewn cynghorau.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
**www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/1147

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Canlyniad Etholiadau Lleol 2012
Mai 2012

Gareth Thomas

Rhif dogfen: 12/020

Gwasanaeth Ymchwil

## Crynodeb gweithredol

- Cynhaliwyd etholiadau lleol mewn 21 o'r 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru ar 3 Mai 2012. Yr eithriad oedd Ynys Môn, lle gohiriwyd yr etholiadau tan fis Mai 2013. **Mae'r ffigurau yn y papur hwn ar gyfer y 21 o awdurdodau lle cynhaliwyd etholiadau yn 2012 ac nid ydynt yn cynnwys Ynys Môn**.
- Cynyddodd nifer y cynghorau a reolir gan Lafur o 2 yn 2008 i 10 yn 2012. Hefyd, cynyddodd Llafur nifer y seddau sydd ganddi o 340 yn 2008 i 577 yn 2012. Cynyddodd Llafur nifer y seddau o'r hyn a oedd ganddi yn 2008 mewn 19 o'r 21 o awdurdodau lle cynhaliwyd etholiadau.
- Cynghorwyr annibynnol oedd y mwyafrif mewn 2 o'r 21 o awdurdodau lle cynhaliwyd etholiadau yn 2012, o'i gymharu â 3 yn 2008. Cafwyd gostyniad yn nifer seddau'r cynghorwyr annibynnol o 323 yn 2008 i 293 yn 2012.
- Collod y Ceidwadwyr reolaeth ar y ddau gyngor yr oeddent yn eu rheoli yn 2008. Ar ôl etholiadau 2012, roedd ganddynt 105 o seddau, o'i gymharu â 172 yn 2008.
- Ni wnaeth Plaid Cymru ennill rheolaeth gyffredinol ar unrhyw gyngor. Ennillodd 158 o sedddau yn 2012. Roedd hyn yn ostyngiad ers iddi ennill 197 o seddau yn 2008.
- Ni wnaeth y Democratiaid Rhyddfrydol ennill rheolaeth gyffredinol ar unrhyw gyngor chwaith, a chafwyd gostyniad yn nifer eu seddau o 164 yn 2008 i 72 yn 2012.
- Yn 2012, etholwyd cynghorwyr yn ddiwrthwynebiad mewn 98 o'r 1,223 o seddau (8.0%) lle cynhaliwyd etholiadau.
- **Nid oes ffigurau ar gyfer y nifer a bleidleisiodd wedi'u nodi yn y papur hwn gan nad yw'r ffigurau ar gyfer yr holl awdurdodau lleol ar gael eto**. Cymhlethir y cyfrifiadau hyn gan wardiau aml-aelod mewn rhai cynghorau a seddau diymgeisydd. Disgwylir i'r ffigurau fod ar gael yn ddiweddarach eleni.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ........ **1**

Ffynonellau data a ddefnyddiwyd ar gyfer etholiadau 2012 ........ 1

**2. Rheolaeth y cynghorau** ........ **3**

**3. Cynghorau diogel ac ymylol** ........ **7**

**4. Seddau cyngor** ........ **9**

**5. Perfformiad arweinwyr Cynghorau a oedd yn ail-sefyll** ........ **13**

**6. Seddau lle nad oedd etholiad** ........ **14**

**7. Nodiadau esboniadol** ........ **15**

# Etholiadau lleol 2012

## 1. Cyflwyniad

**Ar 3 Mai 2012, cynhaliwyd etholiadau lleol mewn 21 o'r 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru**. Ar yr un diwrnod, cynhaliwyd etholiadau mewn 128 o'r cynghorau yn Lloegr, ac yn Llundain, cynhaliwyd etholiadau ar gyfer Cynulliad Llundain a Maer Llundain. Hefyd, cynhaliwyd etholiadau ym mhob un o'r 32 o awdurdodau lleol yn yr Alban. **Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r etholiadau lleol a gynhaliwyd yng Nghymru**.

**Cynhaliwyd etholiadau lleol ym mhob un o awdurdodau unedol Cymru, heblaw am Ynys Môn.** Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ei fod am newid y flwyddyn pan gynhelir etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr yn Ynys Môn o fis Mai 2012 i fis Mai 2013, yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid.[1] Y rheswm dros hyn oedd bod y Gweinidog wedi gofyn i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar Ynys Môn, yn dilyn yr adroddiad a'r argymhellion gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Oherwydd gohirio cyhoeddi adroddiad terfynol y Comisiwn, daeth y Gweinidog i'r casgliad na fyddai'n gallu ei ystyried cyn yr etholiadau ym mis Mai 2012.[2]

Ym mis Ionawr 2012, cadarnhaodd y Gweinidog y penderfyniad hwn yn dilyn yr ymgynghoriad,[3] a chyflwynodd *Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012*[4] i weithredu hyn, sy'n golygu **y cynhelir etholiadau lleol ar Ynys Môn ym mis Mai 2013**.

### *Ffynonellau data a ddefnyddiwyd ar gyfer etholiadau 2012*

Casglwyd yr ystadegau yn y papur hwn o wefannau'r awdurdodau lleol perthnasol, ac maent wedi'u dilysu drwy wefan y BBC. **Mae'r papur yn cynnwys cymhariaeth rhwng canlyniadau 2012 a'r sefyllfa ar ôl etholiadau lleol 2008**, fel y cyhoeddwyd ym mhapur y Gwasanaeth Ymchwil ar ganlyniadau etholiadau lleol 2008.[5] **Nid yw'n ystyried unrhyw isetholiadau neu newidiadau i ddaliadau gwleidyddol cynghorwyr ers hynny**. Mae'r newidiadau i nifer y seddau a oedd gan bleidiau ar wefan y BBC yn dod o'r cyfnod yn union cyn etholaid 2012, felly ni fyddant yn cyfateb i'r ffigurau yn y papur hwn.

---

[1] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau), ***Cynnig i newid blwyddyn yr etholiad Llywodraeth Leol ar Ynys Môn***, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 22 Tachwedd 2011 [fel ar 16 Ebrill 2012]
[2] Ibid.
[3] Llywodraeth Cymru, Carl Sargeant (Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau), ***Gohirio blwyddyn yr etholiadau Llywodraeth Leol ar Ynys Môn*** , Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 17 Ionawr 2012 [fel ar 16 Ebrill 2012]
[4] ***Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012***, SI 2012/686 (W.94) [fel ar 16 Ebrill 2012]
[5] Y Gwasanaeth Ymchwil, ***Local Election Results 2008 (updated)***, Mehefin 2008 [fel ar 16 Ebrill 2012]

**Am fod etholiadau Ynys Môn wedi'u gohirio am flwyddyn, nid yw'r cymariaethau hyn yn cynnwys ffigurau ar gyfer yr etholiadau a gynhaliwyd yn Ynys Môn yn 2008.**

**Priodolir rheolaeth ar sail rhifol, a roddir i'r blaid neu'r grŵp sydd â'r nifer fwyaf o seddau**. Ni chynhwysir awdurdodau sydd â chlymbleidiau neu weinyddiaethau lleiafrifol yn y ffigurau hyn. Cânt eu hystyried yn gynghorau nad ydynt o dan reolaeth gyffredinol unrhyw un blaid neu grŵp. Rhwng etholiadau lleol 2008 a 2012, ennillodd Plaid Cymru reolaeth dros Gyngor Gwynedd yn dilyn buddugoliaethau mewn isetholiadau ym mis Hydref 2011 a oedd yn golygu mai Plaid Cymru oedd â'r nifer fwyaf o seddau.[6] **Nid yw newidiadau i reolaeth rhwng etholiadau 2008 a 2012 wedi'u nodi yn y papur hwn**.

Pennir seddau fel 'annibynnol' os bydd ymgeisydd wedi nodi ei fod yn 'annibynnol' (neu 'independent' yn Saesneg) ar ei ffurflen enwebu neu os na fydd wedi nodi enw plaid. Mae 'grwpiau annibynnol' hefyd wedi'u cynnwys yn y categori hwn. Mae'r categori 'Eraill' yn cynnwys yr holl bleidiau eraill, a cheir rhagor o wybodaeth am y rhain yn y nodiadau esboniadol i'r papur hwn.

[6] Wales Online, **Plaid regains control of Gwynedd council after by-election wins**, 1Hydref 2011 [fel ar 18 Ebrill 2012]

## 2. Rheolaeth y cynghorau


O'r 21 o awdurdodau lleol yng Nghymru lle cynhaliwyd etholiadau yn 2012, cynyddodd **Llafur** nifer y cynghorau a reolir ganddi o 2 i 10, gan ennill rheolaeth dros 8 cyngor pellach a chadw'r 2 yr oedd yn eu rheoli ar ôl etholiad 2008.

**Nid oedd gan unrhyw un blaid reolaeth** dros naw o gynghorau. **Y ffigur yn 2008 oedd 14.**

**Cynghorwyr annibynnol** oedd y grŵp mwyafrifol mewn dau o gynghorau, o'i gymharu â thri yn 2008.

Collodd y **Ceidwadwyr** reolaeth dros y ddau gyngor a reolwyd ganddynt yn 2008.

**Ffigur 1: Rheolaeth y cynghorau ar ôl etholiadau 2012**




**Tabl 1: Nifer y cynghorau a reolir, yn ôl plaid (a)**

| Plaid | | 2008 | 2012 | Newid |
|---|---|---|---|---|
| Ceidwadwyr | | 2 | 0 | -2 |
| Llafur | | 2 | 10 | 8 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | | 0 | 0 | 0 |
| Plaid Cymru | | 0 | 0 | 0 |
| Annibynnol (a) | | 3 | 2 | -1 |
| Dim Rheolaeth Gyffredinol | | 14 | 9 | -5 |

Nodyn:

(a) Nid yw Ynys Môn wedi'i chynnwys yn y ffigurau hyn oherwydd y gohiriwyd etholiadau yno o 2012 i 2013. Cynghorwyr annibynnol sy'n ffurfio'r grŵp mwyafrifol ar Ynys Môn.

**Newidiadau i reolaeth y cynghorau**

Mae'r blociau lliw isod yn dangos y pleidiau a oedd yn rheoli yn etholiadau 2008 a 2012 yn yr awdurdodau hynny lle cafwyd newid yn 2012.

## Enillion Llafur

- Abertawe
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerdydd
- Merthyr Tudful
- Caerffili
- Blaenau Gwent
- Tor-faen
- Casnewydd

## Colledion i gynghorau heb fod o dan reolaeth un blaid

- Bro Morgannwg
- Sir Fynwy

Isod, darperir dadansoddiad o reolaeth wleidyddol yn y 21 o awdurdodau lle cynhaliwyd etholiadau yn 2008 a 2012.


**Tabl 2: Rheolaeth wleidyddol dros awdurdodau unedol ac unrhyw newidiadau ers 2008**

| Awdurdod Lleol | 2008 | 2012 | | Newid |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd (a) | | | Dim rheolaeth gyffredinol | Dim newid (a) |
| Conwy | | | Dim rheolaeth gyffredinol | Dim newid |
| Sir Ddinbych | | | Dim rheolaeth gyffredinol | Dim newid |
| Sir y Fflint | | | Dim rheolaeth gyffredinol | Dim newid |
| Wrecsam | | | Dim rheolaeth gyffredinol | Dim newid |
| Powys | | | Annibynnol | Dim newid |
| Ceredigion | | | Dim rheolaeth gyffredinol | Dim newid |
| Sir Benfro | | | Annibynnol | Dim newid |
| Sir Gaerfyrddin | | | Dim rheolaeth gyffredinol | Dim newid |
| Abertawe | | | Llafur | O ddim rheolaeth gyffredinol |
| Castell-nedd Port Talbot | | | Llafur | Dim newid |
| Pen-y-bont ar Ogwr | | | Llafur | O ddim rheolaeth gyffredinol |
| Bro Morgannwg | | | Dim rheolaeth gyffredinol | O'r Ceidwadwyr |
| Caerdydd | | | Llafur | O ddim rheolaeth gyffredinol |
| Rhondda Cynon Taf | | | Llafur | Dim newid |
| Merthyr Tudful | | | Llafur | O Annibynnol |
| Caerffili | | | Llafur | O ddim rheolaeth gyffredinol |
| Blaenau Gwent | | | Llafur | O ddim rheolaeth gyffredinol |
| Tor-faen | | | Llafur | O ddim rheolaeth gyffredinol |
| Sir Fynwy | | | Dim rheolaeth gyffredinol | O'r Ceidwadwyr |
| Casnewydd | | | Llafur | O ddim rheolaeth gyffredinol |

Nodyn:

(a) Ni chynhaliwyd etholiad mewn un sedd yng Ngwynedd oherwydd ni enwebwyd unrhyw ymgeiswyr. Pe bai Plaid Cymru yn ennill y sedd hon, hi fydd â rheolaeth gyffredinol yng Ngwynedd.


**Ffigur 2: Map o awdurdodau unedol yn ôl y blaid/grŵp a oedd yn rheoli ar ôl etholiadau 2008.**




Y Gwasanaeth Ymchwil

© Hawlfraint y goron a hawliau cronfa ddata 2012
Arolwg Ordnans 100047295

**Ffigur 3: Map o awdurdodau unedol yn ôl y blaid/grŵp sy'n rheoli yn dilyn etholiadau 2012.**




Y Gwasanaeth Ymchwil

© Hawlfraint y goron a hawliau cronfa ddata 2012
Arolwg Ordnans 100047295

## 3. Cynghorau diogel ac ymylol

**Mae'r ddau dabl isod yn dangos y cynghorau mwyaf diogel a mwyaf ymylol o blith y cynghorau lle mae un plaid/grŵp yn rheoli**. Rhoddir ffigurau ar gyfer mwyafrifoedd llwyr a mwyafrifoedd o ran canran. Mae'r nodiadau esboniadol atotedig yn rhoi gwybodaeth am sut y cyfrifwyd y ffigurau hyn. Nid yw defnyddio'r mwyafrif llwyr yn ystyried gwahaniaethau rhwng cynghorau o ran maint a nifer y seddau sydd ar gael, felly nodwyd ffigurau ar gyfer mwyafrifoedd o ran canran hefyd er mwyn rhoi ystyriaeth i'r gwahaniaethau hyn.

Cyngor **Castell-nedd Port Talbot** sydd â'r mwyafrif mwyaf o ran canran. Yno, mae gan y Blaid Lafur fwyafrif o 62.5%. Cyngor **Rhondda Cynon Taf** sydd â'r mwyafrif llwyr mwyaf. Yno, mae gan y Blaid Lafur fwyafrif o 45 sedd.

Llafur yng nghyngor **Caerdydd** sydd â'r mwyafrif isaf o ran canran o 22.7%, a Llafur yng nghyngor **Merthyr Tudful** sydd â'r mwyafrif llwyr isaf o 13 sedd.

**Tabl 3: Y cynghorau mwyaf diogel a mwyaf ymylol, yn ôl mwyafrif canrannol**

| Awdurdod Lleol | Rheolaeth | Mwyafrif canrannol |
|---|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | Llafur | 62.5 |
| Rhondda Cynon Taf | Llafur | 60.0 |
| Blaenau Gwent | Llafur | 57.1 |
| Casnewydd | Llafur | 48.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Llafur | 44.4 |
| Sir Benfro | Annibynnol | 40.0 |
| Merthyr Tudful | Llafur | 39.4 |
| Caerffili | Llafur | 37.0 |
| Tor-faen | Llafur | 36.4 |
| Abertawe | Llafur | 36.1 |
| Powys | Annibynnol | 31.5 |
| Caerdydd | Llafur | 22.7 |

**Tabl 4: Y cynghorau mwyaf diogel a mwyaf ymylol, yn ôl mwyafrif llwyr**

| Awdurdod Lleol | Rheolaeth | Mwyafrif |
|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | Llafur | 45 |
| Castell-nedd Port Talbot | Llafur | 40 |
| Caerffili | Llafur | 27 |
| Abertawe | Llafur | 26 |
| Sir Benfro | Annibynnol | 24 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Llafur | 24 |
| Blaenau Gwent | Llafur | 24 |
| Casnewydd | Llafur | 24 |
| Powys | Annibynnol | 23 |
| Caerdydd | Llafur | 17 |
| Tor-faen | Llafur | 16 |
| Merthyr Tudful | Llafur | 13 |

## 4. Seddau cyngor

Yn y 21 o awdurdodau lleol lle cynhaliwyd etholiadau, enillodd **Llafur** 577 o seddau, sef 237 yn fwy nag yn 2008.

Enillodd ymgeiswyr **Annibynnol** 293 o seddau, sef 30 yn llai nag yn 2008.

Enillodd **Plaid Cymru** 158 o seddau, sef 39 yn llai nag yn 2008.


Enillodd **y Ceidwadwyr** 105 o seddau, sef 67 yn llai nag yn 2008.

Enillodd **y Democratiaid Rhyddfrydol** 72 o seddau, sef 92 yn llai nag yn 2008.

Enillodd **ymgeiswyr o bleidiau eraill** 18 o seddau, sef 10 yn llai nag yn 2008. O'r 18 o seddau hyn, enillwyd 13 gan Llais Gwynedd, 2 gan Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig, 1 gan Gwerin Gyntaf, 1 gan Gynrychiolydd y Bobl ac 1 gan y Blaid Ddemocrataidd Gymdeithasol.

**Mae'r ffigurau yn y papur hwn yn cymharu nifer y cynghorwyr ar ôl etholiad 2012 â'r nifer ar ôl etholiad 2008, ac felly byddant yn wahanol i'r ffigurau ar wefan y BBC, sy'n cymharu nifer y cynghorwyr cyn ac ar ôl etholiadau 2012.**

**Ffigur 4: Cyfran y seddau a enillwyd, 2012 (fel canran)**




**Tabl 5: Nifer y seddau a enillwyd, fesul plaid**

| Plaid | 2008 | 2012 | Newid | Canran y newid yn y seddau a gadwyd |
|---|---|---|---|---|
| Ceidwadwyr | 172 | 105 | -67 | -39.0 |
| Llafur | 340 | 577 | 237 | 69.7 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 164 | 72 | -92 | -56.1 |
| Plaid Cymru | 197 | 158 | -39 | -19.8 |
| Annibynnol | 323 | 293 | -30 | -9.3 |
| Eraill | 28 | 18 | -10 | -35.7 |

Darperir dadansoddiad isod o nifer y seddau a enillwyd gan bob plaid ym mhob awdurdod unedol, ynghyd â dadansoddiad o'r newidiadau i nifer y seddau a enillwyd gan bob plaid ym mhob awdurdod unedol. Ceir gwybodaeth am nifer y seddau lle etholwyd cynghorwyr yn ddiwrthwynebiad yn Adran 6 o'r papur hwn.

**Tabl 6: Nifer y seddau a enillwyd gan bob plaid ym mhob awdurdod unedol yn 2012**

| Awdurdod Lleol | Ceid | Llaf | DRh | PC | Ann | Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd (a) | 0 | 4 | 2 | **37** | 18 | 13 |
| Conwy | 13 | 10 | 5 | 12 | **19** | 0 |
| Sir Ddinbych | 9 | **18** | 1 | 7 | 12 | 0 |
| Sir y Fflint | 8 | **31** | 7 | 1 | 23 | 0 |
| Wrecsam | 5 | **23** | 4 | 1 | 19 | 0 |
| Powys | 10 | 6 | 9 | 0 | **48** | 0 |
| Ceredigion | 0 | 1 | 7 | **19** | 15 | 0 |
| Sir Benfro | 3 | 9 | 1 | 5 | **42** | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 23 | 0 | **28** | 22 | 1 |
| Abertawe | 4 | **49** | 12 | 0 | 6 | 1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | **52** | 0 | 8 | 3 | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | **39** | 3 | 1 | 10 | 0 |
| Bro Morgannwg | 11 | **22** | 0 | 6 | 7 | 1 |
| Caerdydd | 7 | **46** | 16 | 2 | 4 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | **60** | 1 | 9 | 4 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | **23** | 0 | 0 | 9 | 1 |
| Caerffili | 0 | **50** | 0 | 20 | 3 | 0 |
| Blaenau Gwent | 0 | **33** | 0 | 0 | 9 | 0 |
| Tor-faen | 4 | **30** | 0 | 2 | 8 | 0 |
| Sir Fynwy | **19** | 11 | 3 | 0 | 10 | 0 |
| Casnewydd | 10 | **37** | 1 | 0 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm** | **105** | **577** | **72** | **158** | **293** | **18** |

Nodiadau:

(a) Ni chynhaliwyd etholiad yn ward Bryncrug/Llanfihangel yng Nghwynedd oherwydd ni enwebwyd unrhyw ymgeiswyr. Cynhelir isetholiad ar ddyddiad i'w bennu.

(b) Dynodir y blaid neu'r grŵp sydd â'r nifer mwyaf o seddi ym mhob awdurdod mewn print **trwm**.

Yn ogystal â chael rheolaeth llwyr dros 10 o'r 21 o awdurdodau lle cynhaliwyd etholiadau yn 2012, **Llafur** yw'r blaid fwyaf mewn pedwar awdurdod arall. Mae gan **Blaid Cymru** y nifer fwyaf o seddau mewn tri awdurdod, ac mae gan y **Ceidwadwyr** y nifer fwyaf o seddau mewn un awdurdod, er nad oes gan y naill blaid na'r llall reolaeth llwyr dros yr awdurdodau hyn. Mae gan ymgeiswyr **annibynnol** fwyafrif y seddau mewn dau awdurdod, ac mae ganddynt hefyd fwy o seddau nag unrhyw blaid/grŵp mewn awdurdod arall.

**Tabl 7: Newidiadau o ran nifer y seddau a enillwyd, o'i gymharu â 2008, fesul awdurdod unedol**

| | Rheolaeth | | Newid yn nifer y seddau ers 2008 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | 2008 | 2012 | Ceid | Llaf | DRh | PC | Ann | Eraill |
| Gwynedd (a) | | | 0 | 0 | -3 | **2** | 0 | 0 |
| Conwy | | | -9 | **3** | **1** | 0 | **5** | 0 |
| Sir Ddinbych | | | -9 | **11** | 0 | -1 | -1 | 0 |
| Sir y Fflint | | | -1 | **9** | -5 | 0 | -3 | 0 |
| Wrecsam | | | 0 | **12** | -8 | -3 | -1 | 0 |
| Powys | | | **1** | **2** | -6 | 0 | **3** | 0 |
| Ceredigion | | | 0 | 0 | -3 | 0 | **3** | 0 |
| Sir Benfro | | | -2 | **4** | -2 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | | | 0 | **12** | -1 | -2 | -10 | **1** |
| Abertawe | | | 0 | **19** | -11 | -1 | -7 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | | | 0 | **15** | -4 | -3 | -3 | -5 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | | | -5 | **12** | -8 | 0 | **1** | 0 |
| Bro Morgannwg | | | -14 | **9** | 0 | 0 | **4** | **1** |
| Caerdydd | | | -10 | **33** | -19 | -5 | **1** | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | | | 0 | **16** | -3 | -11 | -2 | 0 |
| Merthyr Tudful | | | 0 | **15** | -6 | 0 | -10 | **1** |
| Caerffili | | | 0 | **18** | 0 | -12 | -6 | 0 |
| Blaenau Gwent | | | 0 | **16** | -2 | 0 | -9 | -5 |
| Tor-faen | | | -1 | **12** | -2 | -1 | -5 | -3 |
| Sir Fynwy | | | -10 | **4** | -2 | -1 | **9** | 0 |
| Casnewydd | | | -7 | **15** | -8 | -1 | **1** | 0 |
| **Cyfanswm** | | | -67 | 237 | -92 | -39 | -30 | -10 |

Nodiadau:

(a) Nid yw'r ffigurau ar gyfer cyfanswm y newidiadau yng Ngwynedd yn diddymu i sero oherwydd ni chynaliwyd etholiad yn ward Bryncrug/Llanfihangel o ganlyniad i'r ffaith nad oedd unrhyw ymgeiswyr.

(b) Pan fo gan unrhyw blaid fwy o seddau yn 2012 nag yn 2008, dynodir y cynnydd hwn mewn print **trwm**. Pan fo gan unrhyw blaid lai o seddau yn 2012 nag yn 2008, dynodir y gostyngiad hwn mewn print coch.

Gellir gweld bod:

- **Llafur** wedi cynyddu nifer ei seddau mewn 19 o awdurdodau, a bod nifer y seddau yn y 2 awdurdod arall wedi aros yn gyson.
- Y **Ceidwadwyr** wedi cynyddu nifer eu seddau mewn 1 awdurdod, a bod cyfanswm nifer y seddau a oedd ganddynt wedi gostwng mewn 10 awdurdod.
- Y **Democratiaid Rhyddfrydol** wedi cynyddu nifer eu seddau mewn 1 awdurdod, a bod cyfanswm nifer y seddau a oedd ganddynt wedi gostwng mewn 17 awdurdod.
- **Plaid Cymru** wedi cynyddu nifer ei seddau mewn 1awdurdod, a bod cyfanswm nifer y seddau a oedd ganddynt wedi gostwng mewn 11 awdurdod.

- Nifer y seddau sydd gan ymgeiswyr **Annibynnol** wedi cynyddu mewn 8 awdurdod, ac wedi gostwng mewn 11 awdurdod.

## 5. Perfformiad arweinwyr Cynghorau a oedd yn ail-sefyll

Collodd arweinwyr cynghorau a oedd yn ail-sefyll mewn 7 o'r 21 o awdurdodau unedol lle cynhaliwyd etholiadau. O'r rhain, roedd 2 yn **Annibynnol** a 2 yn **Ddemocratiaid Rhyddfrydol,** gyda'r **Ceidwadwyr, Llafur** a **Phlaid Cymru** yn colli 1 arweinydd yr un a oedd yn ail-sefyll.

O'r 7 arweinydd a oedd yn ail-sefyll, ac a gollodd ei seddau, collodd 3 ohonynt eu seddau i **Lafur,** 3 i ymgeiswyr **Annibynnol** ac 1 i **Blaid Cymru**.

**Tabl 8: Perfformiad arweinwyr Cynghorau a oedd yn ail-sefyll, fesul awdurdod unedol (a)**

| Awdurdod Lleol | Arweinydd yr awdurdod a oedd yn ail-sefyll | Plaid | Sedd | Canlyniad yr etholiad |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | Y Cyng Dyfed Edwards | Plaid Cymru | Penygroes | Cadwodd y sedd o 146 o bleidleisiau |
| Conwy | Y Cyng Dilwyn Roberts | Plaid Cymru | Llangernyw | Cadwodd y sedd o 419 o bleidleisiau |
| Sir Ddinbych | Y Cyng Hugh Evans | Annibynnol | Llanfair Dyffryn Clwyd / Gwyddelwern | Cadwodd y sedd yn ddiwrthwynebiad |
| Sir y Fflint | Y Cyng Arnold Woolley | Annibynnol | Bwcle Dwyrain Bistre | Cadwodd y sedd o 254 o bleidleisiau |
| **Wrecsam** | **Y Cyng Ron Davies** | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Little Acton** | **Collodd y sedd o 9 pleidlais i ymgeiswyr Annibynnol** |
| Powys | Y Cyng Michael E Jones | Annibynnol | Pencraig | Cadwodd y sedd o 41 o bleidleisiau |
| **Ceredigion** | **Y Cyng Keith Evans** | **Annibynnol** | **Tref Llandysul** | **Collodd y sedd i Blaid Cymru o 102 o bleidleisiau** |
| Sir Benfro | Y Cyng John Davies | Annibynnol | Cilgerran | Cadwodd y sedd o 700 o bleidleisiau |
| Sir Gaerfyrddin | Y Cyng Meryl Gravell | Annibynnol | Trimsaran | Cadwodd y sedd o 101 o bleidleisiau |
| Abertawe | Y Cyng Chris Holley | Democratiaid Rhyddfrydol | Cwmbwrla | Cadwodd y sedd o 80 o bleidleisiau |
| Castell-nedd Port Talbot | Y Cyng Ali Thomas | Llafur | Onllwyn | Cadwodd y sedd o 232 o bleidleisiau |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Y Cyng Mel Nott | Llafur | Sarn | Cadwodd y sedd o 400 o bleidleisiau |
| **Bro Morgannwg** | **Y Cyng Gordon Kemp** | **Ceidwadwyr** | **Y Rhws** | **Collodd y sedd i ymgeiswyr Annibynnol o 155 o bleidleisiau** |
| **Caerdydd** | **Y Cyng Rodney Berman** | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Plasnewydd** | **Collodd y sedd i Lafur o 51 o bleidleisiau** |
| **Rhondda Cynon Taf** | **Y Cyng Russell Roberts** | **Llafur** | **Dwyrain Tonyrefail** | **Collodd y sedd i ymgeiswyr Annibynnol o 53 o bleidleisiau** |
| **Merthyr Tudful** | **Y Cyng Jeff Edwards** | **Annibynnol** | **Ynysowen** | **Collodd y sedd i Lafur o 254 o bleidleisiau** |
| **Caerffili** | **Y Cyng Allan Pritchard** | **Plaid Cymru** | **Penmaen** | **Collodd y sedd i Lafur o 362 o bleidleisiau** |
| Blaenau Gwent | Y Cyng John Mason | Annibynnol | Nantyglo | Cadwodd y sedd o 15 o bleidleisiau |
| Tor-faen | Y Cyng Robert Wellington | Llafur | Greenmeadow | Cadwodd y sedd o 60 o bleidleisiau |
| Sir Fynwy | Y Cyng Peter Fox | Ceidwadwyr | Porth Sgiwed | Cadwodd y sedd o 75 o bleidleisiau |
| Casnewydd | Y Cyng Matthew Evans | Ceidwadwyr | Allt-yr-yn | Cadwodd y sedd o 322 o bleidleisiau |

Nodyn:

(a) Tynnir sylw at arweinwyr a oedd yn ail-sefyll ac a gollodd eu seddau yn etholiadau 2012 mewn print **trwm**.

## 6. Seddau lle nad oedd etholiad

Ceir seddau lle nad oedd etholiad pan mai dim ond un enwebiad a geir ar gyfer sedd, gan ganiatau i'r enwebai, felly, gael ei ethol heb alw pleidlais. Roedd cyfanswm o 99 o seddau lle nad oedd etholiad yn y 21 o awdurdodau yng Nghymru lle cynhaliwyd etholiadau yn 2012. Yn un o'r rhain, sef Bryncrug/Llanfihangel yng Ngwynedd, ni enwebwyd unrhyw ymgeisydd pan benderfynodd y cynghorydd blaenorol beidio â sefyll, felly ni chynhaliwyd etholiad ar 3 Mai. Cynhelir is-etholiad yn y dyfodol.[7] **Felly, cafodd cynghorwyr eu hethol yn ddiwrthwynebiad mewn 98 o seddau ar draws y 21 o awdurdodau Cymru lle cynhaliwyd etholiadau yn 2012, yn cynrychioli 8.0 y cant o'r holl seddau lle cynhaliwyd etholiadau**.

**Powys** oedd â'r gyfran uchaf o seddau lle nad oedd etholiad, gyda 31.5 y cant o'r seddau yn cael eu hethol yn ddiwrthwynebiad, a chafodd 25.7 y cant o seddau yng **Ngwynedd** eu hethol yn ddiwrthwynebiad (heb gynnwys Bryncrug/Llanfihangel). Nid oedd seddau lle nad oedd etholiad mewn wyth o awdurdodau.

Gyda 31 o seddau, ymgeiswyr **annibynnol** a enillodd y rhan fwyaf o'r seddau lle nad oedd etholiad. O blith prif bleidiau Cymru, enillodd **Llafur** 23 o seddau lle nad oedd etholiad ac enillodd **Plaid Cymru** 22.

**Tabl 9: Nifer a chanran y seddau lle nad oedd etholiad yn ôl awdurdod unedol, a'r blaid a enillodd**

| Awdurdod Lleol | Nifer y cynghorwyr a etholwyd yn ddiwrthwynebiad | Cyfanswm y seddau a oedd yn yr etholiad | Canran y seddau lle nad oedd etholiad | Nifer y seddau lle nad oedd etholiad a enillwyd gan: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ceid | Llaf | DRh | PC | Ann | Eraill |
| Gwynedd (a) | 19 | 74 | 25.7 | 0 | 1 | 1 | 12 | 5 | 0 |
| Conwy | 6 | 59 | 10.2 | 1 | 0 | 0 | 4 | 1 | 0 |
| Sir Ddinbych | 4 | 47 | 8.5 | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 | 0 |
| Sir y Fflint | 8 | 70 | 11.4 | 2 | 4 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Wrecsam | 3 | 52 | 5.8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| Powys | 23 | 73 | 31.5 | 6 | 2 | 3 | 0 | 12 | 0 |
| Ceredigion | 2 | 42 | 4.8 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Sir Benfro | 13 | 60 | 21.7 | 1 | 2 | 1 | 2 | 7 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 74 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Abertawe | 0 | 72 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 4 | 64 | 6.3 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 5 | 54 | 9.3 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 47 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 75 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 75 | 1.3 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | 33 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 4 | 73 | 5.5 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Blaenau Gwent | 0 | 42 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tor-faen | 0 | 44 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 6 | 43 | 14.0 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 50 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 98 | 1,223 | 8.0 | 16 | 23 | 6 | 22 | 31 | 0 |

Nodiadyn:

(a) Mae 75 o seddau cyngor yng Ngwynedd, ond ni chynhaliwyd etholiad ym Mryncrug / Llanfihangel gan na enwebwyd ymgeiswyr. Nid yw'r sedd hon wedi'i chynnwys yn y seddau lle nad oedd etholiad gan na chafodd unrhyw gynghorydd ei ethol.

[7] Newyddion BBC Cymru, Ward cyngor heb ymgeiswyr, 5 Ebrill 2012 [fel ar 16 Ebrill 2012]

## 7. Nodiadau esboniadol

**Allwedd i godau'r pleidiau**

| Cod | | Plaid |
|---|---|---|
| Ceid | | Ceidwadwyr |
| Llaf | | Llafur |
| DRh | | Democratiaid Rhyddfrydol |
| PC | | Plaid Cymru |
| Ann | | Annibynnol |
| LlG | | Llais Gwynedd |
| GG | | Gwerin Gyntaf |
| PR | | The People's Representative |
| SDP | | Y Blaid Ddemocrataidd Gymdeithasol |
| UKIP | | Plaid Annibynniaeth y Deyrnas Unedig |

Ceir cod byr ar gyfer pob plaid ac mae lliwiau wedi cael eu dyrannu i'r prif bleidiau a grwpiau o bleidiau. Mae grwpiau annibynnol (Cynghorwyr Annibynnol Merthyr Tudful a Chyghorwyr Annibynnol Llanilltyd) wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd o dan y label 'Annibynnol' ynghyd â'r holl ymgeiswyr annibynnol eraill. Rhoddir lliw llwyd golau i bob plaid arall. Yn y rhan fwyaf o'r tablau hyn, caiff pleidiau llai eu grwpio gyda'i gilydd o dan y label 'Eraill'.

**Mwyafrif canrannol a mwyafrif llwyr – enghreifftiau a gyfrifwyd**

Cyfirfir mwyafrif yn y papur hwn drwy ddefnyddio dau ddull gwahanol. Cyfrifir mwyafrif llwyr drwy gymryd y nifer o seddau a enillodd y blaid sy'n rheoli a thynnu'r rhif hwn o'r nifer o seddau a enillodd y pleidiau eraill. Er enghraifft, yn Rhondda Cynon Taf, enillodd Llafur 60 o seddau ac enillodd y pleidiau eraill 15 o seddau.

60 - 15 = 45

Felly mae gan Lafur fwyafrif llwyr o 45 o seddau yn Rhondda Cynon Taf.

Gall defnyddio mwyafrif llwyr fod yn gamarweiniol mewn rhai amgylchiadau gan nad yw'n ystyried unrhyw wahaniaeth yw maint y cynghorau a nifer y seddau sydd ar gael. Mae'r mwyafrif canrannol yn defnyddio cyfanswm y seddau mewn cyngor fel rhan o'r cyfrifiad. Caiff ei gyfrif drwy rannu'r mwyafrif llwyr â nifer y seddau yn y cyngor ac yna lluosi'r ffigur hwn gan 100. Er enghraifft, mae 75 o seddau ar gyngor Rhondda Cynon Taf a mwyafrif llwyr Llafur oedd 45.

45 ÷ 75 = 0.6

0.6 x 100 = 60.0

Felly mae gan Lafur fwyafrif canrannol o 60.0 y cant yn Rhondda Cynon Taf.

Gellir gweld bod gan rai cynghorau yr un safle waeth beth yw'r mwyafrif a ddefnyddir, ond mae safle cynghorau eraill yn newid nifer o lefydd yn dibynnu ar a ddefnyddir mwyafrif canrannol neu fwyafrif llwyr. Fel arfer, caiff awdurdodau sydd â'r nifer fwyaf o gynghorywr, fel **Caerdydd** a **Chaerffili** eu gosod yn uwch o ran mwyafrif llwyr ac yn is o ran mwyafrif canrannol. I'r gwrthwyneb, caiff awdurdodau sydd â llai o gynghorwyr, fel **Blaenau Gwent** a **Merthyr Tudful** eu gosod yn uwch o ran mwyafrif canrannol ac yn is o ran mwyafrif llwyr.